Gwasanaeth Tân ac Achub **De Cymru** | **South Wales** Fire and Rescue Service

**Swyddog Iechyd Diogelwch a Lles**
**30 awr yr wythnos ( gweithio hyblyg)**
**CYFLOG: £24,313 - £26,317 y flwyddyn**
**Gradd 6 gyda Honorariwm Gradd 8**

Mae swydd barhaol fel **Swyddog Iechyd, Diogelwch a Lles** wedi codi o fewn **Tîm Iechyd Diogelwch a Lles** Gwasanaeth Tan ac Achub De Cymru. Lleolir y swydd hon yn ein pencadlys yn Llantrisant ac mae'r swydd yn swydd rhan amser **(30 awr yr wythnos).** Sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd ydym ac mae gennym system weithio oriau hyblyg. Sylwch mai swydd Gradd 6 yw hon, fodd bynnag mae ganddi Honorariwm Gradd 8 dros dro sy'n amodol ar werthusiad swydd. Seilir y cyflog uchod ar y honanariwm Gradd 8.

Bydd yr ymgeisydd lwyddiannus yn gyfrifol am gyflawni amrywiaeth o swyddogaethau iechyd, diogelwch a lles a nodir yn y swydd ddisgrifiad.

Byddai aelodaeth o Sefydliad Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol yn fanteisiol, fodd bynnag gellir cynnal hon, gan y byddai gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno hyfforddiant a archredir gan y Sefydliad Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol yn ogystal â chyrsiau Hyfforddiant Iechyd, Diogelach a Lles pwrpasol.

Nid yw sgiliau iaith Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon. Gallai fod angen teithio rhwng lleoliadau Gwasanaeth yn ogystal â mynychu cyfarfodydd Tri Gwasanaeth Cymru, ac felly mae trwydded yrru'n hanfodol.

Gellir canfod mwy o fanylion mewn perthynas â'r swydd hon o fewn y Swydd-Ddisgrifiad a'r Fanyleb Person. Os oes gennych ymholiadau ymhellach, mae croeso i chi gysylltu â'r Martin Hole y Rheolwr Llinell drwy law e-bost ar m-hole@southwales-decymru-tan.gov.uk neu ffonio 01443 232309. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **12:00, canol dydd, y 9eg o Hydref 2019.**

Dylid dychwelyd ffurflenni gorffenedig drwy law e-bost i personnel@southwales-fire.gov.uk neu gyda'r post i'r Tîm Recriwtio ac Asesu, Pencadlys Gwasanaeth Tan ac Achub, parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX. Mae'r dyddiad ar gyfer y broses ddethol eto i'w gadarnhau.

Sylwch nad oes modd cyflenwi'r swydd hon ar sail secondiad.

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn destun gwiriad boddhaol gan Wasanaeth Datgelu'r Alban ac ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn y gwneir unrhyw benodiad.

---

Ceir lawr lwytho copi llawn o'r hysbyseb, swydd disgrifiad a manyleb person isod.

Os bydd angen y ddogfennaeth yn y Gymraeg arnoch, mae croeso i chi gysylltu â'r Tîm Recriwtio.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

POSITIVE ABOUT DISABLED PEOPLE